Dyfarnwyd nod ansawdd cydnabyddedig yr Elusen Ddibynadwy i ni yn dilyn archwiliad allanol helaeth, gan ddangos tystiolaeth o'n cryfderau o ran arferion rheoli a llywodraethu.

Ein cryfder yw ein hamrywiaeth a'n staff, gwirfoddolwyr a chleientiaid sydd wrth wraidd ein gwaith. Rydym yn ymroddedig at gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn nyluniad a gweithrediad ein gwasanaethau ac rydym wrthi'n reciwtio pobl gyda phrofiadau byw i'r Bwrdd.

Mae'n blaser gweld pobl yn ffynnu a'n prosiectau ailsefydlu; Proiect Addysg a Chyflogadwyedd, Chwarae, ESOL, a Gwirfoddoli yn parhau i fynd o nerth i nerth.

Yn olaf, hoffwn gydnabod cyfraniad eithriadol arweinyddiaeth Andrea Cleaver, ynghyd ag ymrwymiad ein Uwch Dîm Rheoli, staff a gwirfoddolwyr ymroddedig a chyfeiriad strategol gan ymddiriedolwyr.

Harry Iles

Cadeirydd - Cyngor Ffoaduriaid Cymru

# Cynnwys

## Rhagair gan ein Cadeirydd

## Prosiectau cymorth lloches

## Prosiectau ailsefydlu

## Ymgysylltiad

## Dylanwadu

## Llywodraethu

## Arian ac Incwm

## Gair gan ein Prif Swyddog Gweithredol

3

4

7

11

13

15

16

18

2

3

# Cymorth Lloches

## Gwasanaeth Noddfa Cymru (Rhaglen Hawliau Lloches)

**3305** o sesiynau i **700** o gleientiaid o dros **50** o wledydd

Partneriaid: DPIA, EYST, BAWSO, Asylum Justice, a TGP Cymru

**“ Mae'r caredigrwydd a'r gefnogaeth a ddangoswyd i mi gan y gweithwyr achos wedi bod yn anhygoel, maen nhw wedi gwneud i mi deimlo'n fwy diogel.” - Karin**

Mae llywio'r system loches gymhleth yn aml yn gyfnod o bryder ac ynysu i lawer o geiswyr lloches. Gyda'r rhan fwyaf o ohebiaeth gan y Swyddfa Gartref yn Saesneg ac yn defnyddio terminoleg gyfreithiol dechnegol - mae deall y cam nesaf yn aml yn ddryslyd.

Yn anffodus, gwelwn ormod o bobl yn cwympo

drwy holtau yn y system lloches ac mae'r galw am ein gwasanaeth yn parhau i fod yn uchel.

Mae ceiswyr lloches mewn perygl o ddod yn ddigartref, byw mewn amodau gwael neu annioedd, a chael trafferth cael mynediad at y cymorth cyfyngedig y mae ganddynt hawl iddo. Ynghyd â'n partneriaid mae ein gweithwyr achos arbenigol yn gwrando ar bryderon pobl ac yn eu harwain trwy eu hopsyinau.

Eleni, mae ychwanegu Gweithiwr Achos Dim Mynediad i Gronfeydd Cyhoeddus wedi cynyddu ein harbenigedd, ein sgiliau a'n dealltwriaeth ar y cyd fel tîm.

Roeddem wrth ein bodd ein bod wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i barhau â'r gwaith hanfodol hwn am bum mlynedd arall. Mae hyn yn ein galluogi ni a'n partneriaid i gynnal a datblygu ein henw da am waith achos arbenigol ar gyfer ceiswyr lloches ledled Cymru.



## Partneriaeth Llywio Lloches

**73** o Geiswyr Noddfa wedi'u cefnogi

Partneriaid: Refugee Action a Comic Relief

Parhaodd y Prosiect Llywio Lloches, a elwir hefyd yn Arweinydd Lloches, i hyfforddi pobl â phrofiad byw o'r system lloches i gefnogi cleientiaid ar eu taith eu hunain.

Mynychwyd ein digwyddiad lansio ar-lein gan dros 50 o bobl o bob rhan o Gymru a bu'n hyrwyddo gwaith y prosiect i bartneriaid allweddol ledled y wlad.

Hyd yn oed yn wyneb heriau o ganlyniad i etifeddiaeth y pandemig a'r cyfyngiadau symud, gweithiodd y tîm yn ddiflino i wella cysylltiadau â rhanddeiliaid allweddol a chynyddu cyfraddau atgyfeirio i'r rhaglen.

**“ [Roedd fy Arweinydd Lloches] wedi rhoi gwybodaeth i mi ar ble i fynd os oes gennyl broblem gyda'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd hi hefyd hyder i mi fynd at yr heddlu os oes unrhyw faterion difrifol y mae angen rhoi gwybod amdanyst. O'r blaen, roeddwn i'n teimlo'n ofnus o'r heddlu a nawr dwi ddim cymaint oherwydd fy mod yn deall fy hawliau.”**

## Prosiectau Trafnidiaeth

Mae **1000+** o oedolion a phlant o **62** o wledydd wedi derbyn tocynnau trafnidiaeth gyhoeddus am ddim

Partneriaid: Oasis ac EYST

Ym mis Ionawr 2022 lansiwyd prosiect peilot 3 mis i roi mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i geiswyr lloches yng Nghymru. Ariannwyd y prosiect hwn gan Lywodraeth Cymru.

unigedd ac yn galluogi pobl i gael byd ehangach i archwilio.

Dath yn amlwg i staff y prosiect y byddai trefnu tocyn trafnidiaeth yn aml yn arwain at sgyrsiau ehangach am les, a darparwyd nifer o atgyfeiriadau gennym at wasanaethau cymorth. Adroddodd ein cleientiaid welliant cyffredinol i'w hiechyd meddwl a'u lles gan ddangos faint o effaith y gall mynediad at gludiant am ddim ei chael.

Defnyddiwyd ein mewnwelwriad i ddylanwadu ar gefnogaeth wleidyddol ar gyfer mynediad parhaus i gludiant am ddim, gyda'n Prif Swyddog Gweithredol yn siarad yn senedd yr Alban am fanteision y cynllun hwn. Cododd yr Aelod o Senedd Cymru, Sioned Williams y cynllun yn y Senedd hefyd.

**“ Mae hi wedi achub bywydau.”**

**“ Rydyn ni wedi gallu mwynhau ein hunain fel teulu.”**

Mae ceiswyr lloches yn byw mewn tlodi gydag arian cyfyngedig ac mae trafnidia-

eth gyhoeddus fel arfer yn anhygrych o ran cost. Roedd y prosiect hwn felly yn llwyddiant ysgubol i bobl, gan alluogi mynediad i ddiwrnodau allan, apwyntiadau cyfreithiol a meddygol, gweithgareddau cymunedol, canolfannau addysgol, a gwirfoddoli. Roedd yn lleihau

# Cymorth Ailsefydlu

## Symud Ymlaen

**1,296** o ymgeiswyr sydd newydd gael grantiau a'u teuluoedd yn cael eu cynorthwyo

**2,232** o sesiynau wyneb yn wyneb

**4,623** o sgyrsiau dilynol dros y ffôn ac e-bost

**218** o cyfeiriadau i wasanaethau partner



Tîm Symud Ymlaen WRC

Mae ffaoduriaid sydd newydd gael caniatâd yn cael 28 diwrnod yn unig i gynllunio eu symud o'r llety lloches cyn iddynt wynebu cael eu troi allan. Mae hyn yn gadael pobl yn agored iawn i ddiweithdra, digartrefedd a thlodi eithafol. Eleni

**"O ystyried fy mroblemau, fe es i at Gyngor Ffaoduriaid Cymru ddwywaith, ac rwy'n falch o ddweud fy mod wedi cael y gwasanaeth gorau."**

**"Hoffwn i ddiolch yn arbennig i fy ngweithiwr achos a gynigiodd y cyngor gorau i mi yn amyneddgar a hoffwn hefyd estyn fy ngwerthfawrogiad i weddill y tîm symud ymlaen a'r rheolwr gan eu bod bob amser yn cynorthwyo ac yn croesawu defnyddwyr y gwasanaeth."**

buom yn gweithio'n galed i ddatblygu'r cymorth rydym yn ei gynnig i bobl a'u teuluoedd ledled Cymru fel rhan o'n gwasanaeth Symud Ymlaen.

Fe wnaethom helpu ffaoduriaid newydd gael mynediad i gyflogaeth, addysg, a chymorth tai, gyda'r nod o leihau straen ac ansicrwydd. Trwy sesiynau wyneb yn wyneb, ar-lein a dros y ffôn fe wnaethom hysbysu pobl am eu hawliau, opsiynau a sut i gael mynediad at y cymorth sydd ar gael.

Trwy bartneriaethau cryfach, mae ein tîm wedi ennill sgiliau, profiad a gwell dealltwriaeth ac mae ein rhwydwaith wedi elwa'n fawr o ddysgu ar y cyd. Mae hyn yn ein galluogi i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl gan gadw pobl agored i niwed rhag cael eu troi allan ar y strydoedd neu wynebu amddifadedd.

## Prosiect Tai a Digartrefedd

**226** o ffaoduriaid wedi'u cefnogi

Eleni rydym wedi gweithio'n galed gydag awdurdodau lleol, Opsiynau Tai Caerdydd, a sefydliadau cymorth eraill i helpu pobl i ddod o hyd i dai ac osgoi byw ar y strydoedd. Rydym wedi sefydlu cyfarfodydd misol i fynd i'r afael â'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu'n gyffredin. Roedd ein gwaith yn canolbwytio ar ddileu rhwystrau a oedd yn cynyddu'r tebygolrwydd y byddai pobl yn dod yn ddigartref ac yn cynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth pobl o'r opsiynau sydd ar gael, yn enwedig o ran gwasanaethau rhentu preifat.

Drwy ein gwaith, mae 47 o ffaoduriaid wedi gallu cael llety rhent preifat ac mae 160 arall wedi defnyddio gwasanaethau tai Cyngor Caerdydd.

**"Rydw i a'r plant wedi symud i'n tŷ newydd o'r diwedd ac mae'r plant yn hapus ac yn siarad yn dda am Gyngor y Ffaoduriaid. Diolch i chi am bopeth a mwy."**

## Prosiect ailsefydlu awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf

**5** o deuluoedd Affganistan wedi'u cefnogi



Eleni rydym wedi parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i helpu i wneud Cymru'n Genedl Noddfa i'r rhai sy'n ffoi rhag rhyfel, gwrthdaro ac ansefydlogrwydd, gan gynnwys unigolion a theuluoedd yr effeithir arnynt gan yr argyfwng parhaus yn Affganistan. Gyda chydweithrediad awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf, rydym wedi gallu cefnogi pum teulu o Affganistan wrth adleoli i Gymru.

## Addysg a Chyflogadwyedd

**216** o gleientiaid wedi'i u cefnogi'n uniongyrchol

**1,375** o sesiynau cyngor

**37** o weithdai

Cyflogadwyedd

**2** o weithdai UPPNA IKEA

Un o'r prif bethau y mae ein gwaith cyflogadwyedd ac addysg yn canolbwntio arno yw datblygu'r Gweithdai Cyflogadwyedd. Buom yn gwrando ar yr unigolion â phrofiad byw a phynciau ehangach fel diwylliant gwaith yng Nghymru, cyflogau a threthi, a hawliau cyflogaeth. Ynghyd ag Unity in Diversity, fe wnaethom gynnig digwyddiadau cyflogadwyedd deuddydd yn Abertawe a Sir Ddinbych.

Roedd yn bleser bod yn rhan o lansiad Cymru o raglen IKEA UPPNA sy'n gosod ffoaduriaid mewn gwaith. Mae IKEA yn arwain y ffordd gyda'u dull arloesol o ddarparu amgylchedd gwaith diogel a chefnogol i ffoaduriaid.

Mae 16 o gyfranogwyr UPPNA wedi elwa o Weithdai Cyflogadwyedd WRC ac, hyd at mis Ebrill 2022, mae 9 ffoadur wedi cael cynnig contractau parhaol yn siop IKEA Caerdydd.

“ Roeddwn i'n betrusgar ac roedd gen i amheuon yngylch fy hyder a diffyg sgiliau ond gwnaeth eich anogaeth a chefnogaeth i mi deimlo'n fwy cyfforddus a hyderus i wneud cais am y swydd rydw i eisiau.” Rajaa (Irac)

Rydym hefyd wedi cynorthwyo ffoaduriaid gyda CVs, ceisiadau am swyddi, mynediad i gyrsiau ESOL ac ehangu ein rhwydwaith i gynnwys partneriaid fel Gyrfa Cymru, Canolfan Byd Gwaith, Caerdydd i Mewn i Waith, Coleg Caerdydd a'r Fro, Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru (CLILC) a Llywodraeth Cymru. Ein nod yw tyfu'r maes cymorth hwn y mae mawr ei angen.



## Prosiect Chwarae

**131** o sesiynau chwarae

**130** o ymweliadau stepen drws/allgymorth

**179** o atgyfeiriadau ar gyfer teuluoedd sydd angen cymorth ychwanegol

**938** o deganau, **271** o becynnau gweithgareddau, **88** o lyfrau a **79** o becynnau Bookstart wedi'u rhoi i blant

Darparom ni gyfleoedd i blant wneud ffrindiau, rhannu teganau, a chymryd rhan mewn gweithgareddau, tra bod rhieni'n derbyn cefnogaeth a chymorth gan ein tîm.

Rydym yn falch iawn o'r eiliadau bach ond ystyrlon a ddangosodd y gwahaniaethau roeddym yn gallu eu gwneud ym mywydau'r plant a ymunodd â ni yn ystod ein sesiynau chwarae. Dangosodd y sesiynau hyn ein bod wedi helpu plant i fagu hyder, gwneud ffrindiau, a datblygu sgiliau newydd. Rydym mor falch bod plant yn awyddus i ymuno â ni eto, gyda rhieni yn aml yn dweud wrthym pa mor gyffrous oeddent wrth ddysgu i ble'r oeddent yn mynd y diwrnod hwnnw.

Wynebon ni nifer o heriau, gan gynnwys magu hyder teuluoedd i ail-ymuno â sesiynau ar ôl i gyfngiadau pandemig gael eu lleddfu. Er

gwaethaf yr heriau hyn, roeddym yn gallu darparu amgylchedd cyson a sefydlog i deuluoedd.

Trwy ein partneriaethau gyda Mudiad Meithrin, Ti a Fi gyda Vikki, Trinity Aurora Collective ac Artes Mundi, darparuom ni sesiynau tylino ac ioga babanod, gwersi Cymraeg, a sesiynau celf a chrefft gydag artistiaid gwahanol. Hefyd, aethom ni â'r plant ar ymweliadau i lefydd yng Nghaerdydd megis Global Gardens, Parc Play, ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Roedd yn anrhydedd i ni gymryd rhan yn y Prosiect Lullaby eleni, a oedd yn cynnwys cerddor bendigedig, Stacy, yn ymuno â ni dros 6 wythnos ac yn annog mamau a phlant i greu cerddoriaeth a chaneuon am brofiadau plentyn a mamolaeth. Arweiniodd hyn at gyngerdd yn Neuadd Dewi Sant a CD o gerddoriaeth hyfryd.



“Diolch yn fawr, rydyn ni'n dod yma ac mae'n lle i bob un ohonom. Maen nhw wrth eu bodd yn dod yma.”



## Gwirfoddoli

Mae ein gwirfoddolwyr anhygoel yn ein gwneud ni pwys ydym ni.

Mae gennym 40 o gwirfoddolwyr gweithgar sy'n cyfrannu eu sgiliau yng Nghaerdydd, Abertawe, Casnewydd a Wrecsam. Maent wedi darparu cymorth amhrisiadwy yn ein timau brysbenau a gwaith achos, mewn gwersi ESOL, ar gyfer ein cylch chwarae, a gyda'n gwaith cyfathrebu, cyfryngau cymdeithasol a pholisi.

Mae wedi bod yn faint gweld ein rhaglen gwirfoddoli yn chwarae rhan hollbwysig wrth helpu pobl i gael swyddi o fewn Cyngor Ffoaduriaid Cymru a thu hwnt. Mae chwarter ein staff wedi ymuno â ni ar y llwybr hwn.

Rydym yn parhau i dderbyn mwy o geisiadau gwirfoddoli nag y gallwn ddarparu'r cyfleoedd a chefnogaeth ar eu

cyfer, sy'n dangos yn union faint y mae pobl eisiau helpu gyda'n gwaith yn cefnogi pobl i ailadeiladu eu bywydau yng Nghymru. Mae ein gwirfoddolwyr wedi mynegi eu bod nhw wrth eu bodd yn bod yn rhan o'n tîm a'r gwaith rydyn ni'n ei wneud.

**"Pan dwi'n helpu pobl, mae'n fyngwneud i'n hapus. Hyd yn oed yn fwy oherwydd nad ydw i'n ennill arian. Os ydw i'n cael swydd, hoffwn gwirfoddoli diwrnod yr wythnos o hyd oherwydd rydw i wrth fy modd yma. Mae pobl yn mynd tu hwnt i'r gofyn i helpu pobl... rydw i wedi dysgu llawer yn gyflym iawn. Mae wedi bod yn brofiad da iawn."**

## Prosiect Helpu Ymfudwyr

**330** o bobl wedi'u hatgyfeirio at Weithiwr Achos Cymorth Mudol

**"Rwy'n ddiolchgar iawn o'r gwasanaeth a ddarparwyd gennych. Bob tro i mi dderbyn yr arian credyd pensiwn, rwy'n gweddi o drosoch. Rydw i hefyd yn dweud wrth fy nheulu fod hyn i gyd oherwydd eich help anhygoel. Diolch yn fawr, hebddoch chi fyddwn i ddim wedi gallu gwneud dim byd."**

Mae'r cyfnod Symud Ymlaen ar ôl i geisiwr lloches dderbyn statws ffaodur yn un o'r amseroedd mwyaf heriol ac mae risg uchel y bydd rhaid i bobl fyw ar y strydoedd heb unrhyw gymorth na gwybodaeth am beth i'w wneud nesaf. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gallu rhoi cyngor syth ar y gwasanaethau tai, ariannol ac addysg sydd ar gael i bobl a gyfeiriwyd atom gan Migrant Help.

Un o'r prif heriau a wynebwyd gennym oedd sicrhau bod pobl yn ein cyrraedd cyn gynted â phosibl felly buom yn gweithio gyda'r tîm Migrant Help i gyflymu amseroedd atgyfeirio.

## Ymgysylltiad

### Prosiect Cronfa Mwyafrif Byd-eang

**Grantîon: 29** o grwpiau cymunedol

**Partneriaid:** Race Council Cymru a Bawso

Roeddem yn falch o fod yn un o'r sefydliadau a oedd yn rhan o gyflwyno prosiect Cronfa Mwyafrif Byd-eang Comic Relief, mewn partneriaeth â Race Council Cymru a Bawso. Dyfarnwyd y cyllid i 29 o sefydliadau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ledled Cymru i gefnogi unigolion a chymunedau y mae pandemig Covid-19 wedi effeithio arnynt. Roedd y prosiectau'n cynnwys cymorth llesiant meddyliol a chorfforol, parseli bwyd, gwasanaethau gwybodaeth a chyngor, hyfforddiant sgiliau arwain a galwedigaethol, a gweithdai ymwybyddiaeth o droseddu casineb.

Er gwaethaf heriau o ran cysylltu â grantîon a oedd mewn swyddi llawn-amser, llwyddodd y

prosiect i gefnogi aelodau o'r gymuned trwy gefnogaeth barhaus a digwyddiadau rhwydweithio, gan gynnwys digwyddiad rhwydweithio wyneb yn wyneb a oedd yn caniatâu i arweinwyr grŵp rannu gwybodaeth gyswilt ac a arweiniodd at greu cyfeirlyfr sy'n cael ei rannu gyda'r holl grwpiau cymunedol.

Ar y cyfan, llwyddodd y prosiect i ddarparu cymorth mae mawr ei angen i gymunedau sy'n agored i niwed a gafodd eu heffeithio gan y pandemig a dangosodd bwysigrwydd cyfleoedd ariannu a rhwydweithio i sefydliadau a arweinir gan bobl BAME.

### Ymwybyddiaeth Tro seddau Casineb

**9** sesiwn gyda **44** o bobl

Cynhalwyd ein sesiynau ymwybyddiaeth tro seddau casineb ar-lein gan gyfyngiadau parhaus y pandemig. I ymateb i'r her hon, rydym wedi creu ffordd symlach o gasglu manylion cyswilt darpar gyfranogwyr. Fe wnaethom hefyd greu drama dan arweiniad ffoaduriaid yn chwarae senarios o droseddu casineb a sut i ymateb, cyflwyno digwyddiadau iaith-benodol a defnyddio grwpiau WhatsApp i gynyddu allgymorth.



## Wythnos Ffoaduriaid Cymru

**200+** o bobl yn mynychu

**27+** o ddigwyddiadau cofrestredig ledled Cymru

**15** o sefydliadau'n cymryd rhan

**18,000+** o argraffiadau cyfryngau cymdeithasol ar lwyfannau WRC yn unig

**5+** ysgol yn cymrud rhan

**2** ddigwyddiad codi arian gyda thua **£2,600** wedi'i godi i gefnogi ffoaduriaid

Thema Wythnos Ffoaduriaid Cymru eleni oedd 'Ni Allwn Gerdded ar ein Pennau ein Hunain', wedi'i hysbrydoli gan ddfyniad o arraith 'I Have a Dream a' gan Martin Luther King, lle mae'n egluro bod y frwydr dros hawliau a pharch yn uwch na hil. Mae'r thema'n dathlu ein lles a'n cydgylltiad.

Buom yn gweithio gyda'r Ganolfan Gymunedol Africanaidd, Cyngor Caerdydd, Llyfrgell Caerdydd, Eglwysi yng Nghymru, Oasis Caerdydd, a

Chanolfan y Drindod i gynnig amrywiaeth o ddigwyddiadau gan gynnwys adrodd straeon, barddoniaeth, a myfyrdodau personol ar brofiadau ceisio noddfa. Cynhalwyd y rhan fwyaf o'n digwyddiadau ar-lein oherwydd effeithiau parhaus y pandemig a chyfngiadau cysylltiedig.

Ein nod yw denu cyllid ar gyfer Wythnos Ffoaduriaid y flwyddyn nesaf, i'n helpu i ehangu cyfranogiad a chyrhaeddiad.

## Fforymau Dyfodol Disglair Cymru

Cydweithion ni â sefydliad datblygu arweinyddiaeth, ella Forums, a pharhau i alluogi ffoaduriaid trwy hyfforddiant mewn sgiliau arwain a datblygu gyrafa.

Mynychodd aelodau'r prosiect fforymau i ddysgu am faterion sy'n rhwystro eu cynnydd a sut i'w goresgyn. Trwy ddysgu rhwng cymheiriad a hyfforddiant arbenigol, roeddent yn cymryd rhan mewn sesiynau meddwl yn feirniadol, gan wella eu datblygiad personol a'u sgiliau cyflwyno. Roeddent yn arbennig o falch o weld ymddiriedaeth a chefnogaeth gan gymheiriad yn datblygu ymhliith aelodau, a oedd yn eu galluogi i ddod yn ganolwyr ar gyfer ei gilydd yn ystod ceisiadau am swyddi. Mae'r cysylltiadau a ffurfiwyd rhwng cyfranogwyr yn dyst i lwyddiant y prosiect hwn.

Er bod y prosiect wedi wynebu heriau o ran cael awdurdod cyfranogwyr a chyfngiadau amser, fe wnaethom

oresgyn y materion hyn trwy gynnal fforymau gyda'r nos a gwahodd siaradwyr newydd i gyflwyno gweithdai gwahanol.

Mae ein prosiect wedi rhoi cyfleoedd i ffoaduriaid gael gwybodaeth a chwrdd ag uwch aelodau o wahanol sefydliadau. Rydym yn ddiolchgar am ymroddiad a chyfraniadau pob aelod, sydd wedi gwneud y prosiect hwn yn llwyddiant.

Edrychwn ymlaen at barhau â'n gwaith a chael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru.

**"Diolch yn fawr iawn am gadeirio a hwyluso prosiect mor wych, rydw i wir wedi dysgu llawer."**

## Dylanwadu

### Ymgynghoriad Cydraddoldeb Hil

#### 54 o geiswyr lloches a ffoaduriaid yn ymgysylltu

Yn ystod Haf 2021, cawsom gronfa fach o gyllid gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â cheiswyr lloches a ffoaduriaid ar y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.

O'r cychwyn, roeddent yn gwybod y byddai'r dasg yn anodd - mae ymgysylltu â pholisi yn aml yn cael ei ystyried yn bwnc sych. Roeddent yn teimlo bod angen dull gwahanol. Gofynnodd ni i bobl ddod ymlaen a rhannu eu profiad o hiliaeth. Cymerodd 54 o bobl ran mewn cyfres o weithdai grwpiau bach.

Rhannwyd y Cynllun yn ddarnau bach ac amlinellwyd yr hyn yr oedd yn ceisio ei gyflawni - mewn pedwar maes: tai a llety, swyddi ac incwm, iechyd a gofal cymdeithasol ac addysg. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a fyddai'r cynllun newydd wedi lliniaru eu

profiad ac a oedd Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn.

"Mae angen cynllun manwl arnom sy'n cynnwys pa asiantaethau ac adrannau'r llywodraeth dylai gymryd rhan a sut maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau cydraddoldeb wrth gael mynediad at dai fforddiadwy".

Cafodd y canlyniadau eu bwydo'n ôl i Lywodraeth Cymru a helpodd i greu lansiad Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Cymru.

**"Dioddefais hiliaeth yn fy ngwlad, nid wyf am i'm plant brofi'r un peth yma".**

### Dylanwadu ar randdeiliaid allweddol

Rhan allweddol o'n gwaith yw dylanwadu ar randdeiliaid a swyddogion etholedig, i weithredu polisiau mwy trugarog ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid.



Jane Hutt - Minister for Social Justice

Yn ystod ein digwyddiadau ymgysylltu,

gwnaethom sicrhau bod pobl â phrofiadau go iawn yn gallu rhannu eu profiadau, fel bod gwleidyddion yn gallu clywed yn uniongyrchol gan y rhai yr effeithir arnynt.

Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom gyfarfod â'r rhanddeiliaid canlynol:

- Natasha Asghar (Gorffennaf 2021)
- Ruth Jones AS (Medi 2021)
- Geraint Davies, AS Gorllewin Abertawe (Medi 2021)
- Jo Stevens, AS Canol Caerdydd (Tachwedd 2021)
- Jenny Rathbone, AS Canol Caerdydd (Rhagfyr 2021)
- Jane Hutt - Gweinidog dros Gyflawnder Cymdeithasol (Ionawr 2022)

## Ymgyrchu



[Gwyliwch ein fideos yn \[www.youtube.com/@WelshrefugeecouncilOrgUk\]\(https://www.youtube.com/@WelshrefugeecouncilOrgUk\).](https://www.youtube.com/@WelshrefugeecouncilOrgUk)

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, parhaon ni i eiriol dros hawliau ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

Ym mis Hydref 2021, trefnom ni gyfarfod cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth o'r Bil Cenedligrwydd a Ffiniau a'i effaith bosibl. Yn dilyn hyn, ym mis Tachwedd, lansiwyd ymgrych gyhoeddus gennym yn erbyn y mesur, a oedd yn cynnwys deiseb wedi'i llofnodi gan 1,012 o bobl a fideo firol a gafodd 539,000 o argraffadau ar Drydar yn unig.

Ym mis Chwefror 2022, lansion ni ein cefnogaeth i bobl o Wcráin a gweithio i lenwi'r bylchau yng ngwybodaeth y llywodraeth trwy gyfres o gyfarfodydd cyhoeddus. Ym mis Mawrth, rhoddon ni bwysau ar Lywodraeth Cymru i gydnabod yr

angen am ffoaduriaid o Wcráin. Daeth y trafodaethau i ben gyda chyllid ar gyfer cynllun prosiect Gwasanaeth Wcráin y gwnaeth Llywodraeth Cymru ein gwahodd i'w gyflwyno. Yn yr un mis, gwnaeth ein Prif Swyddog Gweithredol apeliadau pellach am gymorth brys gan y Llywodraeth i ffoaduriaid o Wcráin a mesurau diogelu priodol ar draws sawl sianel, gan gynnwys BBC Radio Wales a'r Times.

Hefyd, gweithion ni mewn partneriaeth â Refugee Action a grymuso pobl â phrofiaday byw i rannu eu hanesion. Yn olaf, ym mis Mawrth 2022, cydweithion ni â Together with Refugees i oleuo Castell Caerdydd mewn oren a thynnu sylw at gyflwr ffoaduriaid.

## Gweithdai chwalu mythau

**20** o weithdai ar-lein

**250** o bobl yn ymgysylltu

**75%** yn adrodd barnau mwy cadarnhaol am ffoaduriaid a cheiswyr lloches

Gwelsom ddiddordeb cynyddol yn ein gweithdai chwalu mythau eleni, wrth i sefydliadau fel Ombwdsmon y Bobl, Capital Law, Cymdeithas Bél-droed Cymru, Prifysgol De Cymru ac Ymddiriedolaeth Natur wella a datblygu eu hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i staff.

Diolch i'n gwirfoddolwyr sydd â phrofiadau o fyw fel ceiswyr lloches, roeddem yn gallu rhannu hanesion i daflu goleuni ar realiti eu profiadau. Ein nod oedd creu gofod anfeirniadol lle gallai pobl ymgysylltu a gofyn cwestiynau i'w helpu i gael gwell dealltwriaeth a chwalu'r mythau a'r celwyddau niweidiol am bobl sy'n cael eu gorfodi i aadel eu cartrefi.

Gyda mwy o gefnogaeth i'n gwirfoddolwyr, yn enwedig cefnogaeth iechyd meddwl, gallwn barhau i ddarparu cyfle ar gyfer cysylltiad a gwell dealltwriaeth o fewn y cymunedau sy'n derbyn ceiswyr lloches newydd.

**"Gweithdy teimlad-wy iawn i'r pwynt i mi ddiffodd fy nghamer a i griod i un adeg. Nawr rwy'n meddwl am yr hyn allwn ni ei wneud i wneud gwhaniaeth?"**

## Llywodraethu

Roedd ennill y Nod Ansawdd Elusen Dibynadwy eleni yn gyflawniad pwysig i ni.

Adolygydd ein gwaith, ein harferion, a'n cynnydd yn erbyn 11 maes allweddol megis arweinyddiaeth a llywodraethu, rheolaeth ariannol, ac asesu canlyniadau ac effaith. Cymerodd ein staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr ran yn y broses, a chyflwynwyd cryn dipyn o dystiolaeth.

Roedd yr asesiad allanol gan y Tîm Elusennau Dibynadwy yn cynnwys adolygu dogfennaeth a

chyweld â staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr.

Yn ystod y broses, diweddarwyd a chynhaliwyd amrywiol bolisiau ac arferion, er enghraift creu rhaglen sefydlu ar gyfer staff newydd, diweddarwr llawlyfr staff, ymarferion myfyrio ar yr hyn sy'n gweithio a meysydd i'w gwella, a chynnal arolygon boddhad mewnol. Mae'r rhain i gyd wedi gwneud i'n sefydliad weithredu'n fwy effeithiol ac effeithlon.

# Arian ac incwm

## Cynhyrchu incwm a chodi arian



Tyfodd ein hincwm o £1,346,632 i £1,627,719. Ein cyflawniad balchaf oedd y gwaith a wnaethom gyda Chynghorau Ffoaduriaid Lloegr a'r Alban ar gyfer apêl Nadolig y Times, a gododd £104,000 o incwm anghyfynegidig ac a greodd fwy o ymwybyddiaeth gadarnhaol o brofiadau ffoaduriaid yn y DU.

Gwnaeth ein codwyr arian cymunedol bendigedig i ni wenu gyda balchder - rodden ni wrth ein bodd yn gweld Clwb Ifor Bach yn troi'n ddigwyddiad gig codi arian gig am noson.

Rydym yn ddiolchgar i'r cyllidwyr canlynol sy'n ei gwneud hi'n bosibl i ni barhau i weithio tuag at wneud Cymru'n Genedl Noddfa i'r rhai sydd angen lloches a chymorth.

**" Dewisais Gyngor Ffoaduriaid Cymru oherwydd rwy'n teimlo nad ydym ni, fel gwlad, yn gwneud digon i helpu pobl sy'n ffoi o barthau rhyfel. Roedd eu tîm o gymorth i enfawr i mi trwy rannu negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol a bod yn gyfeillgar yn gyffredinol."**  
Louis Jugessur

## Grantiau a dderbynwyd:

- Llywodraeth Cymru 673,025
- Comic Relief 17,515
- BBC Children in Need 31,942
- Ymddiriedolaeth Elusennol AB 20,000
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol 139,689
- Lloyds Bank Foundation 25,000
- Oak Foundation 100,854
- Refugee Action 20,975
- Sefydliad Cymunedol Cymru 15,000
- Migration Exchange 45,000
- Screwfix 5,000
- National Emergency Trust 40,385
- Cynllun Partneriaeth Trydydd Sector WCVA 54,052
- Award for All 9,882
- Loteri Cod Post 18,896
- Race Council Cymru 10,000
- Moondance Foundation 25,000
- WCVA Covid 5,409
- Gwent TNLCF 1,167
- Prosiect CAF 124,298
- DWP Kickstart 10,564
- Garfield Weston 34,000
- IKEA 15,000

Rydym wedi derbyn nifer o roddion mewn nwyddau, a hoffem ddiolch i Kings Church a Jesus Cares am eu parseli bwyd rheolaidd, Eglwys Fethodistaidd Cathays a Phrosiect Toybox am eu rhoddion o degannau.



# Golwg ar ein dyfodol gan ein Prif Swyddog Gweithredol



Rydym yn gweithio mewn amgylchedd cyfnewidiol ac anrhagweladwy. Ni fyddaf i byth yn anghofio glywed gan deuluoedd blin nad oedd yn gwybod a fyddent yn gweld eu hanwyliaid yn Afganistan eto neu'n gweld goresgyniad yr Wcráin yn datblygu yn Ewrop.

Bydd y flwyddyn nesaf yn gweld gwaith hanfodol yn cefnogi unigolion o Wcráin ac Afganistan yn adeiladu bywydau newydd yng Nghymru. Rydym yn falch ein bod wedi camu i'r adwy ac wedi cefnogi pobl yn eu cyfnod o argyfwng a byddwn yn parhau i wneud hynny yn 2022/3.

Andrea Cleaver

Ein cryfder yw in brwdrydedd, amrywiaeth, a hyblygrwydd. Rydym yn aros am weithrediad y Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau gyda phryder mawr am yr effaith weithredol y bydd yn ei chael ar fywydau pobl. Mae'r gallu gwleidyddol o amgylch y Ddeddf, a'r iaith a ddefnyddir i ddisgrifio ceiswyr lloches yn niweidiol, yn fymwyol ac yn anghywir. Mae angen gwneud llawer o hyd i godi ymwybyddiaeth o'r angen am lwybrau adsefydlu a hawliau'r rhai y mae angen eu hamddiffyn.

Rydym am dyfu ein prosiect addysg a chyflodaeth gan alluogi pobl i ffynnu, a'n gwaith i gefnogi pobl i gael cartrefi. Mae cael to a datblygu sgiliau yn gydrannau hanfodol i deimladau o ddiogelwch a balchder. Gyda'ch cefnogaeth chi, gallwn symud ymlaen at ddyfodol mwy disgrair. Diolch yn fawr.



Cyngor Ffoaduriaid Cymru

Welsh Refugee Council

Galluogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid i adeiladu dyfodol newydd yng Nghymru.

Empowering asylum seekers and refugees to build new futures in Wales.

Ffôn: 0808 196 7273

E-bost: [info@wrc.wales](mailto:info@wrc.wales)

120- 122 Broadway, Caerdydd  
CF24 1NJ

[www.wrc.wales](http://www.wrc.wales)



Rhif y Cwmni: 4818136  
Rhif yr Elusen: 1102449